# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 19EG MEHEFIN, 2017**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 9 Mehefin 2017)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Steve Collings | Annwen Hughes |
| Dafydd Owen | Edgar Wyn Owen |
| Rheinallt Puw | Peter Read |
| Elfed Williams | Annwen Daniels |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| John Brynmor Hughes | Louise Hughes |
| Eryl Jones-Williams | Jason Wayne Parry |
| Dewi Wyn Roberts | |

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Gareth Williams

## Llaf / Rhydd (1)

Y Cynghorydd Sion Jones

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2017/18

## 2. ETHOL IS GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2017/18

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 6.3.17 fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 6 - 15

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinnol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 01.2.17
b) 17.2.17
c) 08.3.17
d) 15.3.17
e) 27.4.17

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 06.03.17

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Annwen Daniels, Anwen Davies, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Eryl Jones-Williams, Tudor Owen (Cadeirydd) Angel Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams, John Wyn Williams a RH Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Cheryl Morgan - Arsylwi a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dilwyn Morgan a Peter Read

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 12fed o Rhagfyr 2016 fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 15.12.16

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 11.10am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 01.02.2017

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Angela Russell ac Ann Williams

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. **CROESO ac YMDDIHEURIADAU**

   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Eryl Jones Williams. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT**

   Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Ms A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd.

   Ategwyd bod datganiad o gollfarn wedi ei gyflwyno yn nodi bod gan yr ymgeisydd gollfarn a oedd yn berthnasol i drwyddedu gyrwyr tacsi. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

   Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais. Rhoddwyd gwybodaeth am gefndir y troseddau a nododd bod tri o'r troseddau wedi digwydd ar noson Galan Gaeaf lle aeth cast o chwith. Cyfeiriwyd at y troseddau eraill fel rhai hanesyddol. Ategwyd bod yr ymgeisydd yn gweithio fel gyrrwr i gwmni lleol a'i fod hefyd wedi derbyn trwydded gyrru cerbyd hacni gan Cyngor Môn (Rhagfyr 31ain 2016). Nodwyd nad oedd gwrandawiad wedi ei gynnal ac mai cais i gyflwyno gwybodaeth ar bapur yn unig ydoedd.

   Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Derbyniodd yr Is Bwyllgor y wybodaeth a gofnodwyd yn y datganiad DBS fel disgrifiad cywir o'r digwyddiadau. Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y materion canlynol :

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

**PENDERFYNODD YR IS-BWYLLGOR OHIRIO Y CAIS**

Rhoddodd yr Is-bwyllgor y rhesymau canlynol dros eu penderfyniad :

- Roedd y cofnod DBS yn datgan bod euogfarnau lluosog ar gyfer trosedd o ddifrod gyda'r un mwyaf diweddaraf yn 2011.
- Yn ystod y gwrandawiad amlygwyd bod yr ymgeisydd wedi derbyn trwydded cerbyd gyrru cerbyd hacni / hurio preifat gan Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ar 31 Rhagfyr 2016 (cyflwynwyd cerdyn adnabod trwydded i dystiolaethu hyn). Amlygwyd nad oedd manylion trwydded CSYM wedi eu datgelu ar y ffurflen gais wreiddiol, ond dadleuodd cynrychiolydd yr ymgeisydd fod Uned Trwyddedu Cyngor Gwynedd (CG) yn ymwybodol o drwydded CSYM. Er hynny, nid oedd unrhyw fanylion am y penderfyniad wedi ei rannu, megis dyddiad y cafodd Uned Trwyddedu CG eu hysbysu, pa swyddog a hysbyswyd a thrwy ba ddull o gyfathrebu. Cadarnhaodd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd gan yr Uned Trwyddedu CG wybodaeth am drwydded CSYM.

- Bod angen gwybodaeth bellach ynglŷn â thrwydded CSYM cyn bod mewn sefyllfa i wneud penderfyniad terfynol.
- Bod angen i Uned Trwyddedu CG wneud ymholiadau gydag Uned Trwyddedu CSYM ar y materion canlynol:
    a. Cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi derbyn trwydded gyrru cerbyd hacni / hurio preifat
    b. Gwirio cynnwys dogfen bolisi CSYM ar geisiadau am dderbyn trwydded gyrru cerbyd hacni / hurio preifat
    c. Gwneud cais am ddatganiad ysgrifenedig o'r rhesymau pam cafodd y drwydded ei chaniatáu, er gwaethaf collfarnau ar y datganiad DBS.
- Bod posib gwrthod y cais ar sail cymal 16.1: Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd, '*gwahardd rhoi trwydded pan fydd gan yr ymgeisydd euogfarnau lluosog ar gyfer troseddau difrod troseddol, lle digwyddodd y gollfarn ddiwethaf yn llai na 10 mlynedd cyn y cais'*. Fodd bynnag, roedd yr aelodau yn awyddus i gael mwy o wybodaeth am drwydded CSYM cyn bod mewn sefyllfa i wneud penderfyniad.
- Bod yr ymgeisydd mewn cyflogaeth ac felly, i raddau yn fodlon na fyddai yn cael ei niweidio gan y gohiriad
- Petai'r wybodaeth am drwydded CSYM wedi ei gyflwyno gyda'r cais buasai modd i Uned Drwyddedu CG fod wedi gwneud ymholiadau priodol gydag Uned Drwyddedu CSYM gan osgoi'r angen i ohirio.
- Bod angen sicrhau gwrandawiad teg a gwarchod diogelwch y cyhoedd.

Mynegodd cynrychiolydd yr ymgeisydd ei anfodlonrwydd gyda'r penderfyniad ac y byddai yn gwneud cwyn swyddogol am yr Uned Trwyddedu.

Dechreuodd y cyfarfod am 10 :40am a daeth i ben am 11:30am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 17.02.2017

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Angela Russell ac Ann Williams

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. **CROESO ac YMDDIHEURIADAU**

   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Eryl Jones Williams. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT**

   Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd. Nodwyd bod y gwrandawiad yn ddilyniant i benderfyniad a wnaed 01.02.17 lle gohiriwyd y gwrandawiad hyd nes bod datganiad ysgrifenedig o'r rhesymau pam cafodd trwydded ei chaniatáu gan Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM), er gwaethaf collfarnau ar y datganiad DBS.

   Ategwyd bod datganiad o gollfarnau wedi ei gyflwyno, ac oherwydd bod troseddau perthnasol i'r maes trwyddedu wedi eu cynnwys ar y datganiad, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Ychwanegwyd nad oedd collfarnau ychwanegol wedi eu nodi ers cyflwyno'r cais gwreiddiol.

   **PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat a chaniatawyd cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- gofynion ‘Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd’
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd a’i gynrychiolydd yn ystod y ddau wrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a’r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i’r materion canlynol.

Yn dilyn gwaharddiad am 18 mis, o yfed a gyrru yn Awst 2003 (a gafodd ei godi i Fedi 2004 oherwydd i’r ymgeisydd gwblhau cwrs), derbyniwyd bod y drosedd o yfed a gyrru, yn gollfarn unigol ac yn unol â pharagraff 11.1 o Bolisi’r Cyngor dylai cyfnod o leiaf 3 blynedd fod wedi mynd heibio ers i’r gwaharddiad ddod i ben. O ganlyniad, gan fod y gollfarn yn dyddio yn ôl i 2004 nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod y gollfarn yn sail i wrthod y cais.

Roedd yr Is-bwyllgor hefyd wedi ystyried collfarn ar gyfer digwyddiad o ddifrod troseddol (Mai 2004) lle cafodd yr ymgeisydd ei ddedfrydu i ddirwy, a gorchymyn i dalu iawndal a chostau. Roeddynt hefyd wedi ystyried collfarn Ionawr 2012 ar gyfer digwyddiad o ymosodiad oedd yn achosi niwed corfforol gwirioneddol (ABH) ac ar gyfer dau gyhuddiad o ddifrod troseddol ar yr un dyddiad. O dan gymal 16.1 o'r Polisi Trwyddedu ‘*dylid ystyried gwrthod cais os oedd gan yr ymgeisydd hanes o aildroseddu, sydd yn dangos diffyg parch at les eraill neu at eiddo, onid oes cyfnod o 10 mlynedd o leiaf wedi mynd heibio ers y gollfarn ddiweddaraf’*. Fodd bynnag, roedd gan yr Is-bwyllgor hawl i wirio oddi wrth gymal 16.1 os yn fodlon bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.

Ystyriwyd bod bwlch o 8 mlynedd rhwng collfarn 2004 a 2012 ac nad oedd yr ymgeisydd wedi mynd allan i achosi gweithred o ddifrod troseddol yn fwriadol (2012), yn hytrach ei fod yn digwydd o ganlyniad i gast aeth o chwith.

Yn ychwanegol, ystyriwyd bod gan yr ymgeisydd drwydded cerbyd hacni /hurio preifat gyda CSYM, ac er nad oedd hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i'r Is-bwyllgor ddod i'r casgliad bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol, roedd yn ffactor i’r Is-bwyllgor ei ystyried wrth wyro oddi wrth gymal 16.1. Amlygwyd bod yr ymgeisydd eisoes yn gyrru mewn ac allan o Wynedd yn rhinwedd y gwaith trawsffiniol ac ni dderbyniodd yr Is-bwyllgor unrhyw dystiolaeth o gwynion neu broblemau oedd yn ymwneud a’i waith fel gyrrwr.

O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y rhesymau uchod yn cyfiawnhau gwyro oddi wrth gymal 16.1, ac felly yn derbyn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i dderbyn trwydded gyda Chyngor Gwynedd. Pwysleisiwyd bod y cais hwn wedi ei benderfynu ar ei rinweddau ei hun ac felly nid oedd yn gosod cynsail.

Dechreuodd y cyfarfod am 10 :40am a daeth i ben am 12 :30pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 8.03.2017

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Annwen Daniels a Dilwyn Morgan

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Louise Hughes.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT**

Mynegodd yr Is-bwyllgor siom nad oedd yr ymgeisydd wedi troi fyny i'r gwrandawiad..

Amlygwyd bod y Swyddog Trwyddedu wedi derbyn e-bost gan yr ymgeisydd yn cadarnhau ei fwriad i fynychu'r gwrandawiad. Gofynnwyd i'r Rheolwr Trwyddedu gysylltu â'r ymgeisydd drwy ei ffôn symudol, ond ni chafwyd ateb gan yr ymgeisydd.

Penderfynwyd parhau gyda'r gwrandawiad yn absenoldeb yr ymgeisydd..

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

**PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat a ni chaniatawyd cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'

- ffurflen gais yr ymgeisydd ynghyd a thystysgrif cwblhau cwrs gyrru a dau hysbysiad cosb benodedig a gyflwynwyd gan Heddlu Gogledd Cymru 6.1.17
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Yn dilyn dyfarniad gan Lys Ynadon am un drosedd o ladrad yn 2001, amlygwyd yn unol â pharagraff 8.2 o Bolisi'r Cyngor y dylai cyfnod o leiaf 3 blynedd fod wedi mynd heibio ers i'r gwaharddiad ddod i ben. Gyda'r gollfarn yn dyddio yn ôl 15 mlynedd, nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod y gollfarn yma yn sail i wrthod y cais.

Yn dilyn gwaharddiad am 12 mis, o yfed a gyrru yn Ebrill 2009 (a gafodd ei leihau i 9 mis yn dilyn cwblhau cwrs), derbyniwyd, yn unol â chymal 12.10 o Bolisi'r Cyngor *y byddai cais yn cael ei wrthod os oes collfarn ddiweddar yn erbyn yr ymgeisydd a arweiniodd at waharddiad o 12 mis neu fwy, onid oes cyfnod o 18 mis o leiaf wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.* Gyda gwaharddiad y gollfarn yn dyddio yn ôl i 2010, nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod y gollfarn yn sail i wrthod y cais.

Yn dilyn rhybudd gan Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr yn ymwneud â honiad bod yr ymgeisydd wedi ymosod / cam-drin neu esgeuluso plentyn gan achosi dioddefaint neu anaf diangen yn Chwefror 2013, nodwyd bod manylion y datganiad DBS yn annelwig. Gan nad oedd yr ymgeisydd yn bresennol i ymhelaethu ar gefndir yr honiad, bu i'r Is-bwyllgor ei ystyried fel 'ymosodiad ar blentyn'. Yn ôl cymal 7.2 o Bolisi'r Cyngor, *oni cheir amgylchiadau eithriadol bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes troseddau sydd yn ymwneud â phant neu oedolion diamddiffyn* Nodwyd nad oedd terfyn amser amodol yn cael ei gynnwys yng nghymal 7.2 a gan nad oedd yr ymgeisydd yn bresennol i ymhelaethu ar gefndir y gollfarn teimlwyd nad oedd modd ystyried yr amgylchiadau yn rhai eithriadol. Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod y rhybudd yn berthnasol i'r cymal yma.

Yn dilyn hysbysiadau cosb benodedig gan Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â dwy drosedd: gyrru heb dystysgrif MOT, a gyrru car heb yswiriant, yn Rhagfyr 2016, nid oedd yn amlwg o'r dogfennau a gyflwynwyd bod y cosbau penodedig wed eu talu / herio. Yn ychwanegol, roedd yr Is-bwyllgor yn pryderu nad oedd yr ymgeisydd yn cydffurfio â materion diogelwch teithwyr Yn unol â chymal 12.2 o Bolisi'r Cyngor > collfarnau moduro, byddai'r ddau drosedd yn gyfystyr â 'troseddau traffig difrifol'. O dan gymal 12.4, nodwyd y byddai cais yn cael ei wrthod *os yw'r ymgeisydd wedi cyflawni mwy nag un Drosedd Traffig Difrifol, o fewn y 5 mlynedd diwethaf ac ni ddylid ystyried unrhyw gais pellach hyd nes bod cyfnod o 3 blynedd o leiaf wedi mynd heibio.* Gyda'r hysbysiadau cosb benodedig wedi eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2017, roedd yr Is bwyllgor o'r farn bod yr hysbysiadau hyn yn berthnasol i'r cymal.

Mynegwyd siom nad oedd yr ymgeisydd yn bresennol i gyflwyno sylwadau ar gefndir ei droseddau ac i ymateb i gwestiynau perthnasol. Mynegwyd siom hefyd nad oedd cyflogwr parod yr ymgeisydd wedi cyflwyno geirda na phresenoli ei hunain yn y gwrandawiad

Ar sail yr wybodaeth oedd ar gael, i'r Is-bwyllgor, daethpwyd i'r penderfyniad bod y rhybudd a dderbyniwyd yn 2012 a'r ddau hysbysiad cosb benodedig yn 2017 yn rhesymau digonol i'r Is-bwyllgor gadw at y polisi a gwrthod y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai hawl i'r ymgeisydd apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2 :45am a daeth i ben am 3:00pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 15.03.2017

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Tudor Owen (Cadeirydd), Y Cynghorwyr John Brynmor Hughes a RH Wyn Williams

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais. Rhoddwyd gwybodaeth am gefndir y troseddau ac amlygodd mai camddealltwriaeth oedd y prif reswm dros ei gamgymeriad. Nododd y byddai cyngor a gwybodaeth briodol a chywir ar ddechrau ei yrfa fel gyrrwr tacsi wedi bod yn fanteisiol. Cadarnhaodd bod ganddo drwydded yrru gyfredol ar gyfer hurio preifat a cherbyd hacni yn Arfon.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat a chaniatawyd cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'

- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Yn dilyn datganiad ar y ffurflen gais am drosedd gyrru dros y terfyn amser statudol ( 3 pwynt cosb yn Awst 2015), amlygwyd, yn unol â chymal 13.1 o Bolisi'r Cyngor bod mân drosedd gyrru yn golygu trosedd rhwng 1 a 3 phwynt cosb. Amlygywd bod cymal 13.2 yn nodi na fyddai un gollfarn am fân drosedd gyrru yn arwain at wrthod cais ac felly nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod y fân drosedd yma yn sail i wrthod y cais.

Yn dilyn dyfarniad gan Llys Ynadon Môn (Tachwedd 2016) ar gyhuddiad o weithredu'n groes i reol 9 o'r Ddeddf Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008 ynghyd â chollfarn o gymell llogiad heb drwydded cerbyd oedd yn groes i Adran 45 Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847, cadarnhaodd yr ymgeisydd bod y ddau achos wedi codi o ddigwyddiad ym Mhorthaethwy (Mawrth 2016) lle cafodd ei ddal gan Cyngor Môn mewn ymarferiad prawf brynu.

Amlygwyd yn unol â chymal 17.0 o Bolisi Cyngor Gwynedd y byddai'n annhebygol rhoi trwydded *i ymgeisydd a chanddo gollfarn yn gysylltiedig â thorri deddf neu is ddeddf onid oes cyfnod o leiaf 12 mis wedi myned heibio ers yr achos mwyaf diweddar o hynny*. Er mai ond 4 mis oedd wedi mynd heibio ers dyddiad y gwaharddiad, gwrthod y cais fyddai'r cam cyntaf, ond gyda hawl gan yr is bwyllgor i wyro oddi ar y canllaw o fewn amgylchiadau eithriadol.

Gyda'r ymgeisydd wedi cadarnhau mai trwydded Hurio Preifat a Cherbydau Hacni un flwyddyn ar gyfer Arfon yn unig oedd ganddo (rhwng 28.8.15 a 27.8.16), nid oedd hyn yn caniatáu iddo weithredu ym Môn. Amlygodd yr ymgeisydd mai camddealltwriaeth oedd hyn ar ei ran a phleidiodd yn euog i'r drosedd.

Ystyrioedd yr Is Bwyllgor nad oedd unrhyw dystiolaeth na phryderon ynglŷn ag ymddygiad yr ymgeisydd fel gyrrwr yn Arfon yn ystod cyfnod y drwydded.

O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y rhesymau uchod yn cyfiawnhau gwyro oddi wrth gymal 17.0, ac felly yn derbyn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i dderbyn trwydded gyda Chyngor Gwynedd.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Trwyddedu yn cadarnhau trefniant y drwydded.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:15am a daeth i ben am 12:15pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 27.04.2017

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Tudor Owen (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Ann Williams ac Elfed Williams

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Cheryl Morgan (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais. Amlygodd ei fwriad o gyflogi'r ymgeisydd petai'r drwydded yn cael ei chaniatáu gan gynnig hyd at 30awr yr wythnos iddo. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i rannu gwybodaeth am gefndir y troseddau ac amlygodd mai camddealltwriaeth oedd y prif reswm dros ei gamgymeriad. Cadarnhaodd bod ganddo drwydded yrru gyfredol lawn.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'

- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Yn dilyn collfarn gan Lys Ynadon De Ynys Môn (Medi 2000) am un digwyddiad o drais ABH derbyniwyd dedfryd o wasanaeth yn y gymuned a gorchymyn i dalu iawndal a chostau. Yn unol â pharagraff 6.5 o bolisi'r Cyngor bydd cais yn cael ei wrthod os bydd llai na 3 blynedd wedi pasio ers derbyn collfarn o drais ABH. O ystyried bod y gollfarn yma wedi digwydd dros 16 mlynedd yn ôl, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon nad oedd yn disgyn o fewn gwaharddiad cymal 6.5 ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Yn dilyn collfarn gan Lys Ynadon De Ynys Môn (Rhagfyr 2003) am un cyhuddiad o ymddygiad meddw ac afreolus derbyniwyd dirwy a gorchymyn i dalu costau. Nid yw polisi'r Cyngor yn cyfarch trosedd o'r fath yn benodol, fodd bynnag amlygwyd bod cymal 17.1 o'r polisi yn nodi bod gofyn i 12 mis basio ers y gollfarn. O ystyried bod y gollfarn yma wedi digwydd 13 mlynedd yn ôl, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon nad oedd yn disgyn o fewn gwaharddiad cymal 17.1 ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Yn dilyn collfarn gan Lys Ynadon Ynys Môn (Mawrth 2009) am un cyhuddiad o ddefnyddio cerbyd heb yswiriant (Chwefror 2009) derbyniwyd 7 pwynt cosb a gorchymyn i dalu dirwy, gordal dioddefwr a chostau. Ni chafodd yr ymgeisydd ei wahardd rhag gyrru. Yn unol â pharagraff 12.2 o'r polisi ystyrir y drosedd fel un moduro difrifol ac y dylai 6 mis basio ers derbyn y gollfarn. O ystyried bod y gollfarn yma wedi digwydd 8 mlynedd yn ôl, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon na ddylai'r gollfarn yma fod yn sail i wrthod y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Trwyddedu yn cadarnhau trefniant y drwydded.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y rhesymau uchod yn cyfiawnhau bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i dderbyn trwydded gyda Chyngor Gwynedd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:15am a daeth i ben am 11:15am